newyddion LLAIS SIR GÂR

Carmarthenshire Voice
Llais Sir Gâr

A'R ENILLYDD YW....

Diolch i bawb a gyfrannodd at ein harolwg diwethaf – cyfanswm o 71%. I ddangos ein bod yn gwerthfawrogi eich ymdrechion ac i ddiolch ichi, rydym yn cynnwys pob un o'r arolygon a ddychwelir mewn raffl fawr. Dewiswyd enillydd ar hap ar gyfer arolwg 32 a bellach mae ein henillydd, Mr Harries o Ddyffryn y Swistir, £50 yn gyfoethocach! Os ydych chi am gael siawns o ennill £50 y tro nesaf, y cyfan mae'n rhaid i chi ei wneud yw llenwi arolwg 33 a'i anfon yn ôl atom ni cyn gynted â phosibl. Mae mor syml â hynny!

Sut y defnyddir eich gwybodaeth...

Mae'r holl ymatebion yn cael eu dadansoddi ac yna mae adroddiadau'n cael eu hanfon yn uniongyrchol at yr holl bartneriaid sef: Cyngor Sir Caerfyrddin, Heddlu Dyfed-Powys a Bwrdd Iechyd Hywel Dda.

Rydym yn crynhoi'r canlyniadau hynny yn ein llythyron newyddion, a hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd gan y partneriaid neu'n rhoi gwybod i chi sut y defnyddir y wybodaeth. Gan fod rhai penderfyniadau yn cymryd mwy o amser na'i gilydd, ein bwriad yn y llythyr newyddion hwn ac yn ein llythyron newyddion yn y dyfodol yw rhoi sylw o'r newydd i rai o'r materion a gafodd sylw yn flaenorol, a chyflwyno gwybodaeth i chi am unrhyw gamau gweithredu sydd wedi cael eu rhoi ar waith.

Ffurf y cylchlythyr:

Oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol a'r angen am arbedion effeithlonrwydd gan bob corff sector cyhoeddus, fe sylwch ein bod wedi newid ffurf ein cylchlythyrau ac rydym hefyd yn lleihau'r nifer o gopïau rydym yn eu printio. Gyda hynny mewn golwg, os hoffech dderbyn eich arolwg a'ch cylchlythyr ar-lein, cysylltwch a'r Cydgysylltydd Ymgynghori; gweler ei manylion ar ddiwedd y cylchlythyr hwn.

PANEL DINASYDDION SIR GAERFYRDDIN

FFORMAT GWAHANOL?
Os oes angen y wybodaeth hon arnoch ar ffurf print bras neu Braille neu ar dâp sain, ffoniwch 01554 742304

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Etholiadau

A wnaethoch chi bleidleisio yn yr etholiadau canlynol?



Pleidleisiodd 82% ohonoch yn refferenda mis Mawrth a mis Mai, gyda dau draean ohonoch yn defnyddio gorsafoedd pleidleisio, a thraean ohonoch yn pleidleisio drwy'r post. Roedd bron hanner ohonoch yn credu y dylid fod wedi cyfuno refferendwm mis Mawrth ag etholiadau mis Mai, tra bod chwarter ohonoch yn anghytuno. Nid oedd barn gan y gweddill.

A oeddech chi o'r farn bod digon o gyhoeddusrwydd ynghylch pob etholiad?

Roedd bron tri chwarter ohonoch o'r farn bod digon o gyhoeddusrwydd ynghylch pob etholiad, fodd bynnag, pan ofynnwyd i chi pwy fyddech chi'n hoffi gweld yn rhoi mwy o gyhoeddusrwydd, nodwyd ymgeiswyr a'u partïon gan 60% ohonoch, yna dilynwyd hyn gan yr Awdurdod Lleol, a'r Comisiwn Etholiadol. O ystyried yr holl gyfryngau sydd ar gael i roi cyhoeddusrwydd, dewisodd y nifer mwyaf ohonoch (71%) ffurf taflen.

A oeddech chi'n gwybod bod unrhyw un dros 18 oed yn cael gwneud cais am fod yn Glerc Pleidleisio neu'n Gynorthwy-ydd Cyfrif?

Nid oedd 54% ohonoch yn gwybod bod unrhyw un dros 18 yn cael gwneud cais am fod yn Glerc Pleidleisio neu'n Gynorthwy-ydd Cyfrif, tra bod 46% yn gwybod hyn.

Diweddariad

Dywedodd Amanda Bebb, Rheolwraig Gwasanaethau Etholiadol Cyngor Sir Caerfyrddin, 'Mae'n ddiddorol darllen yr adborth a gafwyd gan aelodau Panel. Crëwyd y cwestiynau fel bod modd defnyddio'r canlyniadau am amryw o resymau e.e. i weld a ddylid fod wedi cyfuno etholiadau mis Mawrth a mis Mai ac a oedd yr etholwyr yn deall y cwestiwn a ofynnwyd iddynt ar y papurau Refferendwm. Anfonir y canlyniadau hyn ymlaen at y Comisiwn Etholiadol sy'n croesawu ymgynghoriad o'r fath wrth gynllunio'r set nesaf o etholiadau.

Mae'r cwestiynau sy'n holi a yw etholwyr eisiau gweld mwy o gyhoeddusrwydd yn rhywbeth yr wyf i, fel Rheolwraig Gwasanaethau Etholiadol, yn pryderu ynghylch. Gan fod cyllideb hysbysebu wedi'i dorri, ond eto'r ddyletswydd i hyrwyddo'r etholiadau'n parhau, roeddwn i am weld a oedd y cyhoedd wedi sylwi ar ein hymdrechion i dorri'r gyllideb hysbysebu. Roedd yn arbennig o ddiddorol gweld bod 71% ohonoch eisiau gweld mwy o daflenni cyhoeddusrwydd. Roedd y canlyniadau hefyd yn dangos bod yn rhaid i ni hyrwyddo'n hysbysebion am staff etholiad yn fwy. O ran addasrwydd gorsafoedd pleidleisio, bydd y canfyddiadau hyn yn ffurfio rhan o'r Adolygiad o Orsafoedd Pleidleisio sy'n digwydd ar hyn o bryd.'

Cwynion

Yn eich barn chi, beth yw'r 3 elfen bwysicaf o ymdrin â chwyn:
Roedd y nifer mwyaf ohonoch yn credu mai'r elfen bwysicaf o ymdrin â chwyn oedd y dylid gwrando arni er mwyn deall yr holl ffeithiau. Yr ail elfen bwysicaf oedd effeithlonrwydd a phrydlondeb, o ran pa mor gyflym yr ymchwilir ac y datrysir y gwyn, a'r drydedd oedd rhoi ymateb llawn a chlir, yn arbennig o ran y canlyniad.

Pe baech chi am gyflwyno cwyn i'r Cyngor sut byddech chi'n fwyaf tebygol o fynd ati?
Y 3 prif ddull a ddewiswyd gennych oedd ffonio eu Canolfan Gyswllt (50%), ffonio'r adran yn uniongyrchol (48%), a thrwy lythyr (43%). (Noder mai cwestiwn amlddewis oedd hwn, ac felly ni fydd y canlyniadau'n gwneud cyfanswm o 100%)

Nod y Cyngor yw ymateb i gwynion corfforaethol cyn pen 10 niwrnod gwaith. Beth yw eich barn chi am y targed hwn?
Cred 63% bod ymateb i gwynion corfforaethol cyn pen 10 niwrnod gwaith yn foddhaol. Roedd 34% ohonoch yn teimlo ei fod yn rhy hir, a 3% yn teimlo ei fod yn rhy fyr.

Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, a ydych chi wedi cyflwyno cwyn i Gyngor Sir Caerfyrddin?



Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, roedd 18% (89 ohonoch) wedi cyflwyno cwyn. O'r rhain, roedd 56% ohonoch wedi gwneud cwyn ffurfiol, ac roedd 44% wedi ei chyflwyno i aelod o staff rheng flaen.

At ei gilydd, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar...?
O'r rhai ohonoch a oedd wedi cyflwyno cwyn i aelod o staff rheng flaen, roedd 52% (32 ohonoch) yn anfodlon neu'n anfodlon iawn â'r modd yr ymdriniwyd â'ch cwyn. Roedd 39% (24 ohonoch) yn fodlon neu'n fodlon iawn, ac nid oedd 5 ohonoch yn fodlon nac yn anfodlon.

O'r rhai ohonoch a wnaeth gwyn ffurfiol, roedd 56% (45 ohonoch) yn anfodlon neu'n anfodlon iawn â'r modd yr ymdriniwyd â'ch cwyn. Roedd 33% (27 ohonoch) yn fodlon neu'n fodlon iawn, ac nid oedd 9 ohonoch yn fodlon nac yn anfodlon.

Diweddariad

Diolchodd Catherine Evans, Rheolwr Gwella Gwasanaethau'r Cyngor, bawb ohonoch a lenwodd y rhan hon. *"Rydym newydd ganoli'r swyddogaeth gwyno o fewn yr Awdurdod ac mae'r adborth o fudd mawr i ni. Defnyddir y wybodaeth a gesglir ym mhob hyfforddiant staff gan gynnwys hyfforddiant sydd wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer Swyddogion Ymchwilio. Byddwn yn dysgu o'r adborth a roddir ac yn rhoi mesurau mewn lle i wella ar y gwasanaeth a gynigir. Diolch am gymryd yr amser i roi gwybodaeth werthfawr i ni."*

Gwasanaethau Dementia

Mae Fforwm Craffu ar y Cyd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Gaerfyrddin yn cynnal adolygiad o Wasanaethau Dementia. Fel rhan o'r adolygiad, roedd aelodau'r fforwm yn bwriadu cysylltu ag aelodau o'r Panel Dinasyddion sydd â phrofiad o ddementia er mwyn cyflawni ymchwil mwy trylwyr a hynny ar ffurf trafodaeth bersonol ynghylch byw gyda dementia. Dywedodd 14% ohonoch fod gennych brofiad o ddementia ac y byddech yn fodlon i rywun gysylltu â chi er mwyn cymryd rhan mewn trafodaeth un-i-un am eich profiadau. Os wnaethoch wirfoddoli, bydd aelod o'n tîm Craffu ac Ymgynghori yn cysylltu â chi cyn hir.

Tai

Mae canlyniadau'r cwestiynau yn yr adran 'Tai' a holwyd yn arolwg 32 yn dal i gael eu dadansoddi. Ceir adroddiad arnynt yn rhifyn nesaf y cylchlythyr.

HEDDLU DYFED-POWYS

Canolfan Gyswllt

Gofynnir y cwestiynau hyn yn flynyddol er mwyn gweld a yw'r gwasanaeth wedi gwella a pha ddatblygiadau pellach rydych chi'n teimlo efallai y dylid eu gwneud. Yn y rhifyn hwn rydym yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y canlyniadau a sut y maent yn cymharu â'r rheiny a gafwyd pan ofynnwyd y cwestiynau'n wreiddiol yn 2003.

A ydych wedi ffonio Heddlu Dyfed-Powys yn ystod y 12 mis diwethaf?

Nid oedd 77% wedi ffonio Heddlu Dyfed-Powys o fewn y 12 mis diwethaf, tra bod 23% (112 ohonoch) wedi eu ffonio. Roedd y rhan fwyaf ohonoch wedi galw unwaith yn unig cyn cael ateb, ***sydd wedi bod yn gyson ers 2003.***

Pan atebwyd eich galwad, pa mor gyflym y gwnaed hynny…?

Roedd 60% ohonoch yn teimlo bod eich galwad wedi'i hateb o fewn yr amser disgwyliedig, roedd 20% ohonoch yn teimlo bod eich galwad wedi'i hateb yn gynt na'r disgwyl, ac roedd 18% yn teimlo bod eich galwad wedi'i hateb yn arafach na'r disgwyl. Nid oedd 2% ohonoch yn cofio. ***Mae'r canlyniadau hyn wedi bod yn gyson ers 2003 h.y. roedd y nifer fwyaf ohonoch yn teimlo bod eich galwad wedi'i hateb o fewn yr amser disgwyliedig.*** O gymharu â chanlyniadau 2010, roedd cynnydd o 7% yn y nifer ohonoch a oedd yn teimlo bod eich galwad wedi'i hateb yn gynt na'r disgwyl.

A gawsoch eich cyfarch yn ddwyieithog?

Roedd 68% ohonoch wedi derbyn cyfarch dwyieithog. Nid oedd 22% ohonoch yn cofio, a dywedodd 10% (11 ohonoch) nad oeddech wedi eich cyfarch yn ddwyieithog. ***Ar sail eich adborth, mae'r nifer ohonoch sy'n cael eich cyfarch yn ddwyieithog wedi codi 26% ers 2003.***

Ar ôl yr alwad, beth oedd eich argraff am y gwasanaeth a gafwyd…?

Yn gyffredinol, dywedodd 68% bod eich argraff o'r gwasanaeth fel yr oeddech wedi'i ddisgwyl, dywedodd 29% ohonoch ei fod yn well nag oeddech wedi'i ddisgwyl, a dywedodd 4% (4 aelod) ei fod yn waeth na'r disgwyl. ***Unwaith eto, mae'r canlyniadau wedi bod yn gyson ers 2003 h.y. roedd eich argraff fel yr oeddech wedi'i ddisgwyl***. O gymharu â chanlyniadau 2010, roedd cynnydd o 7% yn nifer yr aelodau Panel a ddywedodd bod eu hargraff am y gwasanaeth a gafwyd fel yr oeddent wedi'i ddisgwyl, a gostyngiad o 9% yn y rhai a gredai ei fod yn waeth na'r disgwyl.

Plismona Bro

Yn ystod 2006, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi bod yn cyflwyno Timau Plismona Bro yn raddol drwy ardal yr heddlu. Mae Plismona Bro yn ymwneud â'ch Timau Plismona Bro lleol chi, y partneriaid, y cymunedau a'r sector gwirfoddol i gyd yn cydweithio er mwyn rhoi sylw i faterion rydych chi wedi dweud eu bod yn destun pryder yn eich ardal chi.

A ydych wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn eich cymuned ers i Blismona Bro gael ei gyflwyno?

Nid oedd 61% ohonoch wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn eich cymuned ers cyflwyno Plismona Bro. Roedd 22% wedi sylwi ar newidiadau, a dywedodd 17% ohonoch nad oeddech yn gwybod.

I ba raddau rydych chi'n meddwl bod eich cymuned wedi newid ers i Blismona Bro gael ei gyflwyno yn eich ardal chi?



O'r rhai ohonoch a oedd wedi sylwi ar newidiadau, roedd 69% (69 ohonoch) yn teimlo bod eich cymuned wedi gwella ychydig roedd 30% (31 ohonoch) yn teimlo ei fod wedi gwella'n fawr, ac roedd 1 yn teimlo ei fod ychydig yn waeth. Nid oedd yr un ohonoch yn teimlo ei fod yn llawer gwaeth.

A ydych chi'n gwybod sut mae cysylltu â'ch Plismon Bro / Swyddog Cymorth Cymunedol?

Nid oedd 65% ohonoch yn gwybod sut i gysylltu â'ch Plismon Bro / Swyddog Cymorth Cymunedol, tra bod 35% (169 ohonoch) yn gwybod sut i gysylltu â nhw. O ran cael gwybod pwy yw eich Swyddogion Plismona Bro a sut i gysylltu â nhw, y 3 prif ddull a ddewiswyd gennych oedd cyfarfodydd/cymorthfeydd (38%), patrôl (34%) a posteri (30%).

Yn sgil cyflwyno Plismona Bro mae'r cyhoedd wedi cael cyfle i weld sut mae'r heddlu yn ymdrin â phroblemau ar y cyd â chyrff ac asiantaethau statudol eraill, ac i ddylanwadu ar hynny.

A ydych chi'n gwybod ymhle i gael gwybodaeth am y blaenoriaethau sy'n cael sylw gan eich Tîm Plismona Bro?

Nid oedd 82% ohonoch yn gwybod ymhle i gael gwybodaeth am y blaenoriaethau sy'n cael sylw gan eich Tîm Plismona Bro. Roedd 13% (63 ohonoch) yn gwybod ymhle i gael hyd i'r manylion hyn, tra bod 5% (25 ohonoch) heb ddiddordeb mewn cael hyd iddynt.

Diweddariad

Gellir cael gwybodaeth am eich Tîm Plismona Bro ar wefan Heddlu Dyfed-Powys trwy ddewis **Eich Ardal Chi** ac yna **Sir Gaerfyrddin.**

Ar ochr dde'r tudalen, fe welwch sut y rhennir Timoedd Plismona Bro ar draws yr Heddlu, a thrwy glicio ar eich ardal chi, yn gyntaf, fe welwch wybodaeth am y **blaenoriaethau** sy'n cael sylw gan eich **Tîm** Plismona Bro. Trwy ddewis y pennawd Tîm, fe welwch enwau'ch Swyddogion Plismona Bro lleol, yn ogystal â manylion cyswllt. Mae dyddiadau cyfarfodydd PACT (Partneriaid a Chymunedau Gyda'i Gilydd) hefyd ar gael o dan y pennawd **Digwyddiadau**. Hefyd, gallwch gael gwybodaeth drwy fynd i'r wefan **www.police.uk** a mewnosod eich cod post.

Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, gallwch gysylltu ag unrhyw un o'r timoedd drwy alw **101**; y rhif difrys, a gofyn am y Tîm Plismona Bro yn eich ardal. Mae blaenoriaethau lleol a gwybodaeth am gyfarfodydd PACT ar gael ar hysbysfyrddau mewn gorsafoedd heddlu. Mewn ardaloedd sydd gerllaw lle y cynhelir cyfarfodydd, yn aml dosbarthir taflenni, ac o dro i dro fe'u hysbysebir yn y papur lleol.

Canfyddiadau'r Cyhoedd – Blaenoriaethau

Mae canlyniadau'r cwestiynau 'Canfyddiadau'r Cyhoedd – Blaenoriaethau' a gynhwysir yn Arolwg 9 yn dal i gael eu dadansoddi. Ceir adroddiad arnynt yn rhifyn nesaf y cylchlythyr. Defnyddir eich safbwyntiau wrth osod blaenoriaethau i'r heddlu ar gyfer 2012/13.

Diweddariad

Aflonyddu ar sail Anabledd - Arolwg 31 (Marwth 2011)

Ar y 3ydd o Ragfyr 2009, Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, cyhoeddodd Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ei fwriad i gynnal ymchwiliad ffurfiol i weithredoedd awdurdodau cyhoeddus er mwyn cael gwared ar aflonyddu ar sail anabledd a'r hyn sydd yn ei achosi.

Ym mis Rhagfyr 2010, dan arweiniad y Dirprwy Brif Gwnstabl Jackie Roberts (Arweinydd Cymru Gyfan dros Gydraddoldeb), cyfwelwyd â'r pedwar Heddlu yng Nghymru gan y Comisiwn fel rhan o'r ymchwiliad. Yn ystod gaeaf 2010/11, cynhaliwyd dros 72 cyfweliad gan y tîm Ymchwilio, yn ogystal â 54 gwrandawiad gydag awdurdodau cyhoeddus a gweithredwyr trafnidiaeth, a 12 cyfarfod gyda phobl anabl a'u sefydliadau ledled Cymru, Yr Alban a Lloegr.

Mae'r Comisiwn wedi lansio **O'r Golwg yng Ngolwg Pawb;** adroddiad terfynol yr Ymchwiliad ym Medi 2011, ac fe allwch ei weld ar **www.equalityhumanrights.com**, neu wneud cais amdano drwy ffonio **0845 604 8810** neu drwy ffôn testun ar **0845 604 8820.**

Er mwyn cynnal ein hymchwiliad ein hun ar aflonyddu ar sail anabledd, gofynnodd Heddlu Dyfed-Powys i aelodau o Banel Dinasyddion Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro ddweud wrthym am unrhyw brofiadau y maent wedi cael neu wedi clywed amdanynt. Diolch. Byddwn yn dweud wrth ein Swyddogion Troseddau Casineb am yr adborth a roddwyd gennych.

BWRDD IECHYD HYWEL DDA

Mae Gwasanaeth Iechyd Hywel Dda wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â chymunedau lleol er mwyn sicrhau ein bod ni'n medru darparu gofal o'r safon uchaf. Mae angen i ni weithio'n agosach gyda'r bobl rydym yn eu gwasanaethu, ac mae hyn yn cynnwys cyfathrebu parhaus ynghylch newidiadau a datblygiadau i'ch gwasanaethau iechyd. Hoffwn rannu gwybodaeth a chlywed eich barn chi am eich gwasanaethau iechyd.

Ydych chi'n teimlo bod gennych ddigon o wybodaeth am eich Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau iechyd y mae'n eu darparu?

Roedd 35% ohonoch yn teimlo nad oedd y Bwrdd Iechyd yn darparu llawer o wybodaeth o gwbl, tra bod 35% pellach yn teimlo bod gennych ddigon neu eithaf digon o wybodaeth am y Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau iechyd y mae'n eu darparu. Roedd 18% yn teimlo bod y Bwrdd Iechyd yn rhoi ychydig o wybodaeth am bynciau penodol a dywedodd 12% nad oeddynt yn gwybod.

Faint o ddiddordeb sydd gennych mewn dysgu am wasanaethau iechyd a datblygiadau o ran iechyd yn eich ardal chi?

Roedd gan 62% ohonoch *eithaf diddordeb* neu *ddiddordeb mawr* mewn dysgu am wasanaethau iechyd a datblygiadau o ran iechyd yn eich ardal chi. Nid oedd 19% ohonoch yn gwybod, nid oedd gan 14% ohonoch ddiddordeb o gwbl, a dywedodd 6% bod gennych ddiddordeb mewn pynciau penodol.

Pan ofynnwyd i chi beth hoffech chi wybod mwy amdanynt, y ddau gais mwyaf poblogaidd oedd: gwybodaeth gyffredinol neu wybodaeth lawn am y gwasanaethau sydd ar gael, yn arbennig y rhai sy'n lleol i chi, a gwasanaethau ar gyfer yr henoed gan gynnwys pob math o ofal: gofal iechyd a chymorth cyffredinol, gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael a darpariaeth gofal cartref.

Sut hoffech chi gael gwybod mwy am y Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu?

Y 5 prif ffordd yr oeddech yn dymuno cael rhagor o wybodaeth oedd: (Noder mai cwestiwn amlddewis oedd hwn, ac felly ni fydd y canlyniadau'n gwneud cyfanswm o 100%)

1) Meddygfeydd teulu ~ 51%
2) Cylchlythyr drwy'r post ~ 45%
3) Y wasg/radio lleol ~ 33%
4) Taflenni ~ 28%
5) Fferyllfeydd ~ 27%

Ydych chi'n teimlo eich bod yn chwarae digon o ran yn eich Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu?

Roedd 65% ohonoch yn teimlo nad oeddech yn chwarae rhan yn eich Bwrdd Iechyd a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Roedd 15% ohonoch yn teimlo eich bod yn chwarae ychydig o ran mewn meysydd penodol, ac roedd 11% ohonoch yn teimlo eich bod yn chware *tipyn o ran* neu *ran fawr.*

A hoffech chwarae mwy o ran yn eich gwasanaethau iechyd lleol?

Roedd 52% eisiau derbyn cylchlythyr rheolaidd drwy'r post, roedd 40% eisiau cyfle i roi adborth o adref e.e. arolygon, roedd 39% eisiau derbyn cylchlythyr rheolaidd drwy e-bost, ac roedd 23% eisiau'r cyfle i roi adborth drwy weithgareddau megis grwpiau ffocws a fforymau. (Noder mai cwestiwn amlddewis oedd hwn, ac felly ni fydd y canlyniadau'n gwneud cyfanswm o 100%)

Siarad Iechyd/Talking Health

Siarad Iechyd/Talking Health, a new involvement and engagement scheme, has officially been launched by Hywel Dda Health Board. The scheme aims to give staff and local people an opportunity to have their say on how local health services are planned, developed and delivered. It is open to anyone who uses health board services or who lives in Carmarthenshire, Ceredigion and Pembrokeshire.

Siarad Iechyd
Siarad. Gwrando. Gwneud.
Talking Health
Speak. Listen. Act.

Members will receive regular newsletters and updates on health services and will be able to take part in ongoing discussions about health matters through events, readers' panels, interest groups, surveys and volunteering. There are also a number of health benefits and incentives that members will receive, which will help them improve their own health.

Chairman, Chris Martin said: "We value the views of local people and want them to get involved – not only to improve their own health but also healthcare services over the next ten years."

For more information and to download an application form please visit the Siarad Iechyd/Talking Health website: **www.siaradiechyd.wales.nhs.uk/www.talkinghealth.wales.nhs.uk**. You can also contact us by telephone on 01554 779 510 or write to us at FREEPOST HYWEL DDA HEALTH BOARD.

Update – Survey 30 (Nov 2010)

Alcohol related Anti-Social Behaviour (ASB)

This consultation was part of a wider review of alcohol related ASB and regulatory controls by Carmarthenshire County Council Scrutiny members. Other stakeholders were consulted through the Residents Survey, PACT meetings and Police roadshows, as well local and County Councillors. Responses showed that the majority of people (79%) had not experienced alcohol related ASB but many of those who had (57%), did not report it for various reasons. As a result the Scrutiny Review recommended raising public awareness of how to report and to encourage reporting of alcohol related ASB so that the Police, Council and other relevant agencies can consider the most appropriate way of dealing with it at a local level. The Group also looked at the different powers and controls over this type of ASB and how they were being used in the county, including the use of *Direction to Leave* notices, particularly in Llanelli town.

The Review's recommendations included introducing processes to consider using *Drinking Banning Orders* against individuals who cause persistent problems as a result of their drinking, and *Designated Public Place Orders* allowing the Police to stop people drinking in specific areas. The review was endorsed by the main Committee in April 2011 and approved by the Council's Executive Board in June 2011. The recommendations are being taken forward as part of the wider review of ASB undertaken by the Community Safety Partnership, which was completed in the summer. The Scrutiny Committee will continue to monitor this in the coming year.

FEEDBACK

Please keep giving us your views, so that we can continue to make improvements. If you would like to comment on any particular aspect of the Carmarthenshire Citizens' Panel, please contact:

Consultation Co-ordinator
Customer Focus & Policy
Carmarthenshire County Council
Town Hall, Llanelli, SA15 3AH

Telephone: 01554 742304 or 01267 226639
E-mail: consultation@carmarthenshire.gov.uk

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
Heddlu Police DYFED-POWYS
GIG CYMRU NHS WALES Bwrdd Iechyd Hywel Dda Health Board